**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**Dyddiad:** **10 Hydref 2012**

**Amser:** **09.30am i 11.00am**

**Teitl:** **Papur tystiolaeth - Llywodraeth Leol a Chymunedau, Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14.**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi sylwadau a gwybodaeth i'r Pwyllgor ynglŷn â chynigion cyllideb rhaglen Llywodraeth Leol a Chymunedau i'r dyfodol, fel a amlinellir yn y Gyllideb Ddrafft a gyflwynwyd ar 2 Hydref 2012. Mae'n rhoi sylw i'r meysydd hynny sydd wedi'u cynnwys yng nghylch gwaith y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, sef cymunedau a llywodraeth leol.

## 2. Cefndir

O gymharu â'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2013-14 a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2012-13, mae cyfanswm dyraniad y Prif Grŵp Gwariant (MEG) ar gyfer Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi cynyddu £20.8m yn 2013-14 a £50.4m yn 2014-15. Mae'r newidiadau hyn yn deillio'n bennaf o drosglwyddiadau i mewn i'r Grant Cynnal Refeniw a chyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau cyfalaf. Gwrthbwysir hyn wrth i'r polisi Camddefnyddio Sylweddau, a'r tîm cysylltiedig, gael eu trosglwyddo i'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Erbyn 2014-15, bydd Cyllideb Cymru £2.1bn yn is mewn termau real nag ydoedd ar ei lefel uchaf yn 2009-10 a bydd yn weddol debyg i'r lefel yn 2005-06.

Mae'r tabl ariannol cryno canlynol yn dangos yr effaith gyffredinol ar gyllideb sylfaenol Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Leol a Chymunedau. Nid yw hyn yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) sydd y tu allan i Derfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r tabl hefyd yn dangos y newid mewn £000 o'i gymharu â'r gyllideb flaenorol.

**Tablau Ariannol Cryno:**

**Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau**

£000

| | **2012-13 *** | **2013-14** | **2014-15** |
|---|---|---|---|
| Terfyn Gwariant Adrannol Refeniw | 4,826,288 | 4,899,317 | 4,926,458 |
| Newid mewn £000 o'r Cynllun Blaenorol | | 1,480 | 5,480 |
| Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf | 269,351 | 252,519 | 278,219 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Newid mewn £000 o'r Cynllun Blaenorol | | 19,228 | 44,928 |
| Llinell Sylfaen y Terfyn Gwariant Ariannol | 5,095,639 | 5,151,836 | 5,204,677 |
| Newid mewn £000 o'r Cynllun Blaenorol | | 20,708 | 50,408 |

* Yn unol â Chyllideb Atodol gyntaf 2012-13

Yn dilyn newidiadau portffolio ym mis Mai 2011, mae Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau hefyd yn cynnwys cyllidebau Trafnidiaeth. Rhoddir tystiolaeth ar wahân i Bwyllgor yr Economi a Busnes ar faterion Trafnidiaeth. Gan mai dyma yw mwyafrif cyllideb cyfalaf Llywodraeth Leol a Chymunedau a chyfran helaeth o'r gyllideb refeniw, lluniwyd tabl ar wahân sy'n crynhoi cyllidebau Llywodraeth Leol a Chymunedau ac eithrio Trafnidiaeth.

**Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau (ac eithrio Trafnidiaeth)**

| | **2012-13 *** | **2013-14** | **2014-15** |
|---|---|---|---|
| Terfyn Gwariant Adrannol Refeniw | 4,382,559 | 4,464,907 | 4,491,307 |
| Newid mewn £000 o'r Cynllun Blaenorol | | 1,900 | 5,900 |
| Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf | 38,428 | 33,870 | 33,870 |
| Newid mewn £000 o'r Cynllun Blaenorol | | -5,072 | -5,072 |
| Llinell Sylfaen y Terfyn Gwariant Ariannol | 4,420,987 | 4,498,777 | 4,525,177 |
| Newid mewn £000 o'r Cynllun Blaenorol | | -3,172 | 828 |

* Yn unol â Chyllideb Atodol gyntaf 2012-13

## 3. Trosolwg o'r Gyllideb

Mae Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cyfrannu at nifer o nodau'r Rhaglen Lywodraethu, yn benodol ein ffocws trawsbynciol ar atgyfnerthu'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, ar fynd i'r afael â thlodi a hybu diogelwch cymunedol, ac ar wella'r seilwaith drafnidiaeth sy'n rhoi mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau cyhoeddus, ac sy'n ategu ansawdd bywyd pobl yng Nghymru.

Mae ein rhaglenni adrannol yn cefnogi gwelliannau i sicrhau gwasanaethau cyhoeddus effeithiol, effeithlon a hygyrch sy'n diwallu anghenion pobl. Rydym yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau (gan gynnwys ofn troseddau), ac yn gweithio i leihau nifer yr achosion ac effaith tanau ac

argyfyngau eraill. Byddwn yn ceisio gwella bywyd pobl drwy weithio i leihau tlodi, lleihau'r tebygolrwydd y bydd rhywun yn mynd yn dlotach, a helpu pobl a chymunedau allan o dlodi parhaus.

Mae'r arian adnoddau ychwanegol yn gysylltiedig â throsglwyddiadau net i'r Grant Cynnal Refeniw (£29.4m), sydd wedi'i wrthbwyso gan benderfyniad y Prif Weinidog i drosglwyddo cyfrifoldebau a'r gyllideb gysylltiedig ar Gamddefnyddio Sylweddau (£27.5m) i'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ceir trosglwyddiadau i mewn i'r **Grant Cynnal Refeniw** gwerth £31m yn 2013-14 a £35m yn 2014-15. Mae'r trosglwyddiadau yn 2013-14 yn cynnwys y canlynol:

- £8m ar gyfer Menter Benthyca Llywodraeth Leol o'r Cyfrifon Cadw Canolog (£12m o 2014-15);
- £21.8m o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau ar gyfer y Fenter Brecwast am Ddim ar gyfer Ysgolion, Blas am Oes a'r Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion;
- £0.4m o'r Camau Gweithredu Cefnogi Bysiau a Thrafnidiaeth Leol o fewn Llywodraeth Leol a Chymunedau ar gyfer y cynllun Bathodyn Glas; a,
- £0.7m o Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gydymffurfio â deddfwriaeth sylfaenol ynghylch asesiadau iechyd.

Caiff y rhain eu gwrthbwyso gan drosglwyddiad rheolaidd o £1.6m i Brif Grŵp Gwariant y Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar gyfer y Cytundeb Mapio'r Sector Cyhoeddus.

Rhoddir rhagor o fanylion pan fydd yr Adroddiad Dros Dro ar Gyllid Llywodraeth Leol, yn ogystal â sail y dyraniad, yn cael eu cyhoeddi ar 18 Hydref 2012. Bydd yn nodi swm y Grant Cynnal Refeniw y bwriada Llywodraeth Cymru ei ddyrannu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn 2013-14 a thu hwnt, ynghyd â sail y dyraniad.

O safbwynt diwygio cyllidebau refeniw, nid oes newidiadau sylweddol yn y meysydd Cymunedau a Llywodraeth Leol o fewn Llywodraeth Leol a Chymunedau. Er y gostyngiadau cyfalaf o £5.1m sy'n gysylltiedig â throsglwyddo'r portffolio Camddefnyddio Sylweddau, ceir cyfyngiadau o hyd ar gyllidebau cyfalaf gyda llai o arian ar gael ar gyfer meysydd fel Datblygu Cymunedol a Cham-drin Domestig o'i gymharu â 2010-11, ac mae hynny o ganlyniad i ostyngiadau Llywodraeth y DU.

Mae rhai newidiadau strwythurol wedi'u gwneud i Brif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau fel rhan o'r gyllideb hon er mwyn hwyluso'r broses o'i gysoni â'r cynllun busnes adrannol, a'r broses o uno cyllidebau sy'n canolbwyntio ar lywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus.

## 4. Pump am Ddyfodol Tecach

Mae'r setliad cyllid cyffredinol ar gyfer yr heddlu yng Nghymru wedi dilyn cynlluniau gwariant y Swyddfa Gartref ar gyfer y cyfnod adolygiad o wariant presennol. Caiff y cyllid ei ddyrannu ar draws yr holl awdurdodau heddlu yng Nghymru a Lloegr gan ddefnyddio'r un fformiwla. Mae cynlluniau gwariant y Swyddfa Gartref yn ymgorffori gostyngiadau o flwyddyn i flwyddyn mewn darpariaeth ond mae wedi darparu arian gwaelodol i sicrhau nad oes yr un awdurdod heddlu yn cael toriad sy'n fwy na throthwy penodol. Ar gyfer 2012-2013, mae'r arian gwaelodol hwn yn sicrhau nad oes yr un awdurdod heddlu yn cael mwy na 6.7% o doriad mewn adnoddau. Effaith gyffredinol hyn yw bod pob awdurdod heddlu yng Nghymru a Lloegr wedi cael yr un lefel o ostyngiad mewn cyllid canolog ar gyfer 2012-2013.

Fodd bynnag, yn ogystal â'r ddarpariaeth refeniw gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn cyllido ystod o weithgareddau diogelwch cymunedol, gan gynnwys nifer o grantiau sy'n cefnogi gweithgareddau'r heddlu, a hynny fel cyrff unigol ac mewn partneriaeth ag eraill. Yn benodol, rydym ar ben ffordd i gyflawni un o'r addewidion **Pump am Ddyfodol Tecach** a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda chyllideb o £16.8m yn 2013-14 i gael **500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol (CSOs)** ychwanegol yng Nghymru. Ar 1af Medi, roedd dros 300 o Swyddogion Cymorth Cymunedol wedi'u lleoli neu wrthi'n cael eu hyfforddi. Mae hyn yn llawer cynt na'r disgwyl a bydd yn arwain at fanteision i gymunedau ledled Cymru yn gynharach o lawer. Bydd y swyddogion hyn yn weledol iawn yn eu cymunedau, yn ymgysylltu â phobl, yn rhoi tawelwch meddwl ac yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddant yn chwarae rôl ganolog nid yn unig drwy wneud ein cymunedau'n fwy diogel, ond gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel hefyd. Yn ôl cynlluniau recriwtio'r Heddluoedd, gallant gael 45 Swyddog Cymorth Cymunedol ychwanegol drwy recriwtio rhai swyddogion rhan amser. Golyga hyn y bydd 545 Swyddog Cymorth Cymunedol mewn swydd o ganlyniad i'r addewid hwn erbyn mis Medi 2013.

## 5. Y Rhaglen Lywodraethu

### ***Cymunedau Mwy Diogel i Bawb***

Fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu, byddwn yn parhau i gefnogi camau gweithredu a fydd yn cyfrannu at wneud ein cymunedau yn fwy diogel i bawb gydag £16.7m o gyllid refeniw a £2.6m o gyllid cyfalaf yn 2013-14. Mae ein cyllid drwy'r Strategaeth **"Yr Hawl i fod yn Ddiogel"** a'r prosiect **10,000 o Fywydau Diogelach** yn dangos ein hymrwymiad i wella gwasanaethau aml-asiantaeth, a'u cael i gydweithio, er mwyn helpu dioddefwyr cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod, a gostwng nifer yr achosion a niferoedd y dioddefwyr mynych. Byddwn yn parhau i gyllido'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru ar amrywiol ymyriadau a phrosiectau sy'n ceisio llywio pobl ifanc o gyfeiriad troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn olaf, mae ein **Fframwaith**

**Cenedlaethol Tân ac Achub** yn nodi cyfeiriad strategol allweddol Awdurdodau Tân ac Achub i'r dyfodol.

### *Mynd i'r Afael â Thlodi*

Yn yr hinsawdd bresennol, mae ein Hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal yn ei gwneud yn hanfodol ein bod yn parhau i **fynd i'r afael â thlodi** drwy flaenoriaethu anghenion y bobl dlotaf ac amddiffyn y rheini sydd fwyaf mewn perygl o dlodi a chael eu hallgáu. Fel rhan o hyn, bydd y Llywodraeth yn parhau i gefnogi ein hardaloedd mwyaf difreintiedig drwy gam nesaf y **Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf** gyda chyllideb o £40.3m. Er mis Ebrill 2012, rhoddwyd ffocws newydd i Cymunedau yn Gyntaf fel ei fod yn sail i agenda **trechu tlodi** Llywodraeth Cymru – drwy gefnogi'r bobl o dan yr anfantais fwyaf yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig gyda'r nod o liniaru tlodi parhaus. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn gweithio ochr yn ochr â rhaglenni eraill er mwyn lleihau'r bylchau **addysg, sgiliau, economaidd ac iechyd** rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd mwy llewyrchus yng Nghymru, ac i helpu unigolion i gael gwaith. Caiff cyllid grant ar gyfer y rhaglen ei neilltuo i Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf a bydd Fframwaith Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf yn darparu'r strwythur ar gyfer tystiolaethu canlyniadau gan ddefnyddio dull "atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau". Rhoddir cymorth parhaus i gymunedau i roi'r broses newydd ar waith a datblygu cynlluniau darparu lleol manwl gyda mesurau perfformiad clir – gan ddangos sut mae'r rhaglen yn cyfrannu at yr agenda trechu tlodi ehangach. Mae defnyddio dull 'atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau' gyda'n polisïau a'n rhaglenni yn fodd i sicrhau bod ffocws gwirioneddol ar wella canlyniadau a mesur cyfraniad rhaglenni o'r fath drwy'r gadwyn gyflawni.

Mae'r mentrau allweddol eraill yn cynnwys y **Strategaeth Cynhwysiant Ariannol** gyda chyllid o £3.2m yn 2013-14. Bydd yn cynnal gwasanaethau i'r rheini sydd wedi'u heithrio'n ariannol ledled Cymru, yn ogystal â pharhau ac ehangu Undebau Credyd sy'n darparu gwasanaethau i'r rheini sydd wedi'u heithrio o ddarparwyr prif ffrwd. Rydym hefyd wedi cychwyn ar Adolygiad o Wasanaethau Cynghori, sy'n hynod o bwysig o gofio effaith rhaglen ddiwygio lles Llywodraeth y DU ar ein pobl fwyaf bregus. Byddwn hefyd yn rhoi trefniadau ar waith i ddisodli Budd-dal y Dreth Gyngor a'r Gronfa Gymdeithasol a fydd yn golygu trosglwyddo adnoddau ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar yr arian hwnnw i gefnogi ein cynlluniau ein hunain o fis Ebrill 2014.

### *Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru*

Bydd y Llywodraeth yn cefnogi camau gweithredu i wella'r broses o ddarparu **gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon** sy'n diwallu anghenion pobl yng Nghymru drwy atgyfnerthu democratiaeth leol a pharhau i sicrhau setliadau cyllid ar gyfer llywodraeth leol sy'n cefnogi darpariaeth leol. Bydd cymhellion

ariannol i wella gwasanaethau drwy ein trefn o **Gytundebau Canlyniadau.** Mae ein dull gweithredu newydd o ran trefniadau partneriaeth a chynllunio yn golygu y bydd partneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus yn gallu cydweithio'n llawer mwy effeithiol er mwyn canfod ac ymateb i anghenion strategol eu hardaloedd lleol. Mae'r camau symleiddio sylweddol hyn a'r gostyngiad mewn biwrocratiaeth yn golygu mai dim ond un cynllun sydd ei angen yn hytrach na phedwar, sy'n golygu gostyngiad cyffredinol o 88 i 22 cynllun erbyn mis Ebrill 2013. Dylai hyn alluogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i o leiaf haneru nifer y partneriaethau diangen, a fydd yn golygu arbedion gwirioneddol a sylweddol o ran amser a gweinyddu.

Mae ein hagenda symleiddio wrth galon creu'r amgylchedd cywir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau'r llywodraeth mwy effeithlon ac effeithiol. Byddwn yn parhau i ddileu unrhyw fiwrocratiaeth ddianghenraid lle bynnag y gallwn - mae ein Bil Is-ddeddfau yn enghraifft o sut gallwn ddefnyddio deddfwriaeth i leihau'r baich ar bartneriaid. Bydd ein Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus yn parhau i fwrw ymlaen â gwelliannau a bydd y Cyngor Partneriaeth ar ei newydd wedd yn darparu trefn lywodraethu gadarn o ran cydweithredu er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd a'r effeithiolrwydd gorau posibl yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae ôl troed cyffredin y Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn adeiladu ar ffiniau Byrddau Iechyd a'r heddlu. Bydd y broses o safoni trefniadau cydweithredu yn seiliedig ar ffiniau cyffredin yn galluogi ac yn ategu trefniadau cydweithio ar draws gwasanaethau llywodraeth leol, iechyd a'r heddlu, gan leihau cymhlethdod a darparu fframwaith clir ar gyfer cydweithredu. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y camau i roi adolygiad Simpson ar waith a'r diwygiadau pwysig eraill sy'n mynd rhagddynt ym maes addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

## 6. Y Rhaglen Ddeddfwriaethol

Yn ystod 2011/12 (blwyddyn gyntaf y Rhaglen Ddeddfwriaethol), gwnaethom gyflwyno dau Fil Cynulliad - **Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)** a'r **Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)**. Yn ystod yr ail flwyddyn (2012/13), byddwn yn cyflwyno dau Fil arall - **Bil Teithio Llesol (Cymru)** a **Bil Democratiaeth Llywodraeth Leol (Cymru)** a fydd yn diwygio strwythur, gweithrediad a swyddogaethau'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Mae'r costau a amcangyfrifir yn isel a darperir ar eu cyfer drwy gyllidebau presennol.

Mae Papur Gwyrdd ar **Fil Troseddwyr Ifanc posib** wedi'i gyhoeddi ac mae gwaith ar y gweill i gyhoeddi Papur Gwyn ar gyfer **Bil Rhoi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig** cyn diwedd 2012.

## 7. Cydweithio

Mae'r Llywodraeth yn gweithio'n agos gyda'i phartneriaid cyflenwi allweddol i gyflawni'r nodau yn y Rhaglen Lywodraethu.

Nid yw cydweithredu yn nod ynddo'i hun, ond gall fod yn ddull pwerus o wella gwasanaethau a / neu gyflawni arbedion effeithlonrwydd. Er enghraifft, drwy ein gwaith caffael ar y cyd, rydym wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd o £45m ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yn y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym yn gweithio'n agos ag awdurdodau lleol ac amrywiol bartneriaid i atgyfnerthu'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon, effeithiol a hygyrch. Mae'r cyrff cyhoeddus a noddir gennym yn cynnwys Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, gyda thua £520k o gyllid yn 2013-14, ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio yng Nghymru a Thribiwnlys Prisio Cymru gyda chyfanswm o £10m. Rydym yn gyfrifol am gyllido nifer o Arolygiaethau o fewn cyllidebau o £14.5m ar gyfer Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, £2.6m ar gyfer Arolygiaeth Iechyd Cymru a £12.4m ar gyfer Estyn.

Mae'r Cytundeb Partneriaeth Trydydd Sector presennol, a gaiff ei ail-negodi cyn blwyddyn ariannol 2013-14, yn nodi seiliau cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer mudiadau fel Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddolwyr. Yn 2013-14, mae £8.6m o gyllid yng nghyllideb y Trydydd Sector. Bydd cynlluniau grant eraill, fel y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol, sydd â chyllideb cyfalaf ychydig o dan £11m yn 2013-14, yn parhau i ddarparu cyllid i gefnogi mudiadau cymunedol.

## 8. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Wrth bennu'r dyraniadau cyllidebol, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i effaith unrhyw newidiadau ar gydraddoldeb. Er nad yw tybiaethau sylfaenol dyraniadau eleni wedi newid o gymharu â chynlluniau y llynedd, ceir rhai meysydd lle mae effaith y gostyngiadau sylweddol a orfodwyd gan Lywodraeth y DU, fel rhan o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant diwethaf, wedi arwain at benderfyniadau anodd o ran dyraniadau cyllidebol. Mewn achosion o'r fath, caiff Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb manwl eu cynnal oherwydd yr effaith economaidd-gymdeithasol bosibl a'r canlyniadau i bobl gyda nodweddion gwarchodedig.

Er nad yw hyn wedi'i adlewyrchu yng Nghyllideb Ddrafft eleni, rydym hefyd yn archwilio effaith agenda diwygio lles Llywodraeth y DU ar Gymru, yn benodol ei chynlluniau i ddileu **Budd-dal y Dreth Gyngor** a'r **Gronfa Gymdeithasol** ddewisol ar 31 Mawrth 2013 ac i leoleiddio'r cymorth fel rhan o'i chynlluniau ehangach i ddiwygio'r system fudd-daliadau. Mae hyn wedi cyflwyno her enfawr i Lywodraeth Cymru gan olygu bod rhaid i ni ddatblygu a gweithredu cynlluniau newydd ar y cyd â'n partneriaid sy'n darparu cymorth allweddol i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mater i Lywodraeth y DU yw penderfynu ar lefel y cyllid a gaiff ei throsglwyddo ac rydym yn disgwyl cadarnhad am yr union symiau. Fodd bynnag, byddai unrhyw ostyngiad mewn cyllid yn debygol o gael

effaith negyddol ar bawb sy'n gwneud cais i'r cynlluniau newydd o fis Ebrill 2013, gan gynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig. Rydym yn cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth i waith fynd rhagddo ar y cynlluniau olynol ac wrth i'r dewisiadau ddod yn gliriach. Serch hynny, mae'n dipyn o her.

Yn y gorffennol, mae'r Pwyllgor wedi dangos diddordeb mewn **setliadau Cyflog Cyfartal Awdurdodau Lleol.** O ran cyflog cyfartal, mae dwy elfen benodol sydd angen rhoi sylw iddynt cyn y gellir ystyried ein bod wedi cyrraedd canlyniad boddhaol. Un mater yw'r hawliadau iawndal am ôl-daliadau hanesyddol sydd wedi'u cyflwyno o dan Ddeddf Cyflog Cyfartal 1970, a'r llall yw gorffen rhoi'r statws sengl ar waith ar ôl gwerthusiad swydd o strwythurau graddfa a chyflog. Dyma grynodeb o'r sefyllfa bresennol mewn awdurdodau lleol:

*Taliadau iawndal cyflog cyfartal*

*15 - Wedi Setlo (mae gan 9 hawliadau gweddilliol sydd heb eu datrys)*
*4 - Trafodaethau'n parhau*
*3 - Amddiffyn*

*Statws Sengl*

*13 - Wedi'u rhoi ar waith*
*9 - Anelu at roi ar waith yn 2012-13*

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnwys £54 miliwn o gyllid yn y Grant Cynnal Refeniw rhwng 2005-06 a 2007-08 i gynorthwyo awdurdodau lleol i roi'r statws sengl ar waith. Mae hyn wedi ei ymgorffori yn llinellau sylfaen awdurdodau lleol. Gellir darparu cymorth i awdurdodau lleol sy'n setlo hawliadau iawndal drwy "Gyfarwyddyd Cyfalafu". Mae cyfarwyddyd cyfalafu yn galluogi awdurdod i fenthyg neu ddefnyddio derbyniadau cyfalaf i gyllido'r hyn sy'n gost refeniw mewn gwirionedd. Hyd yma, mae £60.5m o gyfarwyddiadau cyfalafu wedi'u rhoi i 7 awdurdod yng Nghymru.

## 9. Datblygu Cynaliadwy

Mae ein camau gweithredu polisi a'n cyllid yn cefnogi i'r carn agenda datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Mae'r agenda eang hon yn hybu camau gweithredu i fuddsoddi ar gyfer yr hirdymor; yn canolbwyntio ar atal; yn gwarchod gwasanaethau ac ailddyrannu adnoddau; yn hybu integreiddio, yn ogystal â chefnogi'r amgylchedd.

Mae rhai enghreifftiau o'r camau gweithredu rydym yn eu cymryd o fewn y portffolio Llywodraeth Leol a Chymunedau er mwyn cyfrannu at, a chyflawni ein hegwyddorion datblygu cynaliadwy yn cynnwys **Cymunedau yn Gyntaf**, sef buddsoddiad hirdymor sy'n canolbwyntio ar bontio'r cenedlaethau drwy fynd i'r afael â phroblemau hirsefydlog, a'n **Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi** sy'n nodi'r camau gweithredu a gaiff eu cymryd ar draws Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi. Mae gwaith atal yn nodwedd amlwg yn ein strategaeth

troseddau ieuenctid, fframwaith gwasanaeth tân, a'r ymrwymiad 'Pump am Ddyfodol Tecach" i gyllido 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol.

At hynny, rydym yn hybu integreiddio drwy ein gwaith ar ddarparu'r rhaglen ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus: gan sefydlu'r **Patrwm Cydweithredol ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus a chynllunio integredig**. Gwelir ein hymrwymiad i gefnogi'r amgylchedd yn ein hagenda **Teithio Cynaliadwy** sy'n ymgorffori Dewisiadau Doethach; cynlluniau teithio a darparu gwybodaeth teithio bersonol; a datblygu cyfres o gyfnewidfeydd moddol strategol.

**Carl Sargeant AC**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**